# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 1

YSMYGU

*Arwyddion*

### 17 Arwyddion: mangreoedd di-fwg

(1) Rhaid i berson sy'n meddiannu mangre ddi-fwg neu sy'n ymwneud â rheoli mangre ddi-fwg sicrhau bod arwyddion yn cael eu harddangos yn y fangre honno yn unol â rheoliadau o dan yr is-adran hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r arwyddion i gael eu harddangos a chânt bennu gofynion y mae rhaid i'r arwyddion gydymffurfio â hwy (er enghraifft, gofynion o ran cynnwys, maint, dyluniad, lliw neu eiriad).

(3) Caiff rheoliadau o dan yr is-adran hon ddarparu i ddyletswydd sy'n cyfateb i'r un a grybwyllir yn is-adran (1) mewn perthynas—

(a) â mangreoedd a drinnir fel pe baent yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 13,

(b) â cherbydau a drinnir fel pe baent yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 15,

gael ei gosod ar berson, neu berson o ddisgrifiad, a bennir yn y rheoliadau.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) neu (3) gynnwys darpariaeth ynghylch yr arwyddion sydd i gael eu harddangos mewn mangreoedd, ardaloedd o fangreoedd neu gerbydau sydd, yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 13(5), 15(3)(d) neu 16, i gael eu trin fel pe na baent yn ddi-fwg, ond a fyddai fel arall yn ddi-fwg o dan y Bennod hon neu yn rhinwedd y Bennod hon.

(5) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (1), neu unrhyw ddyletswydd gyfatebol mewn rheoliadau o dan is-adran (3), yn cyflawni trosedd.

(6) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon ddangos—

(a) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, fod y fangre yn ddi-fwg (neu, yn ôl y digwydd, fod y man neu'r cerbyd i gael ei drin fel pe bai'n ddi-fwg),

(b) nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, nad oedd arwyddion sy'n cydymffurfio â gofynion yr adran hon yn cael eu harddangos yn unol â gofynion yr adran hon, neu

(c) ei bod, ar seiliau eraill, yn rhesymol i'r person beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(7) Os yw person sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon yn dibynnu ar amddiffyniad yn is-adran (6), ac y dygir tystiolaeth sy'n ddigonol i godi mater mewn cysylltiad â'r amddiffyniad hwnnw, rhaid i'r llys gymryd bod yr amddiffyniad wedi ei fodloni oni bai bod yr erlyniad yn profi y tu hwnt i amheuaeth resymol nad yw wedi ei fodloni.

(8) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(9) Ni chaiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth mewn cysylltiad â mangre a ddefnyddir i unrhyw raddau fel annedd.